Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned wresog ac anogol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn arwain yr ysgol yn effeithiol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn nodi'n briodol pa agweddau ar waith yr ysgol sydd angen eu gwella a'r camau sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn. Maent yn ymateb yn dda i safbwyntiau staff, rhieni a disgyblion, ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr awyrgylch cynhwysol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl weithgar a gwybodus, gan gyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad parhaus yr ysgol. Mae'r cyfeiriad cryf hwn yn helpu creu ethos cynhwysol lle mae staff yn gweithio'n hyderus i hyrwyddo lles disgyblion a gwella safonau mewn dysgu.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a difyr sy'n adlewyrchu'r ardal leol tra'n ehangu dealltwriaeth disgyblion o'r byd y tu hwnt i'w cymuned. Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu disgyblion i fod yn unigolion ystyriol a chyfrifol sy'n gwerthfawrogi eu treftadaeth ac yn dangos parch am amrywiaeth. Caiff cyfleoedd sy'n cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion eu gweu trwy brofiadau dysgu, gan helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu empathi a myfyrio'n ofalus ar eu gwerthoedd.

Mae llawer o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai yn y 'Dosbarth Cymorth Dysgu Ardal', yn gwneud cynnydd cryf mewn llythrennedd a rhifedd. Maent yn elwa ar amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith lle caiff geirfa ei modelu'n barhaus. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn dod yn siaradwyr hyderus ac yn ddarllenwyr brwdfrydig, gan ddefnyddio'u gwybodaeth gynyddol am wahanol fathau o destunau i ysgrifennu ag aeddfedrwydd. Mae eu medrau mathemategol yn datblygu'n dda hefyd, ac mae disgyblion hŷn yn gallu esbonio'u meddwl yn glir a chymhwyso'u medrau rhifedd mewn sefyllfaoedd ystyrlon ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cynllunio'n greadigol ac yn cydweithio'n agos i sicrhau bod y dysgu'n adeiladu'n raddol. Maent yn cynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb i ddisgyblion, ac yn eu hannog i weithio ag annibyniaeth gynyddol. Fodd bynang, mae cyfle i ddisgyblion gynllunio agweddau ar eu dysgu eu hunain yn llai datblygedig. Caiff darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei threfnu'n effeithiol, sy'n sicrhau bod llawer ohonynt yn gwneud cynnydd llwyddiannus o'u mannau cychwyn unigol

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2026